| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **BWRDD PENSIWN** |
| **DYDDIAD:** | **24 MEDI 2019** |
| **TEITL:** | **RHAGDYBIAETHAU PRISIAD 2019** |
| **PWRPAS:** | **EGLURO A CHRAFFU'R RHAGDYBIAETHAU** |
| **AWDUR:** | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

**Cyflwyniad**

1. Mae'r papur yma'n darparu cyfle i'r Bwrdd ystyried y rhagdybiaethau mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo er mwyn gosod y targed ariannu ar gyfer prisiad teir-blynyddol cyfredol y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019.

**Cefndir**

**Rhagdybiaethau Prisiad ar gyfer Prisiad 2019**

2. Roedd swyddogion wedi derbyn cynigion gan Actiwari'r Gronfa yn gosod allan opsiynau sut i adeiladu a gosod rhagdybiaethau prisiad. Hefyd, trafodwyd y cynigion sydd wedi'u amlinellu isod gyda Chadeirydd y Pwyllgor.

3. Yn dilyn i fyny o'r trafodaethau yma, cyflwynwyd papur ffurfiol yr actiwari (**Atodiad** i'r papur yma), yn cynnig rhagdybiaethau i osod targed buddsoddi ar gyfer prisiad teir-blynyddol parhaus y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019.

4. Yng nghyfarfod 29 Gorffennaf, ddaru'r Pwyllgor ystyried a chefnogi'r rhagdybiaethau yn y Crynodeb Gweithredol isod.

5. Bydd ymgynghoriad ffurfiol gyda'r cyflogwyr ar y rhagdybiaethau yma, ynghyd â diwygiadau eraill i'r Datganiad Strategaeth Gyllido o brisiad 2019, mewn un ymgynghoriad yn hwyr yn 2019 neu yn fuan yn 2020.

6. Cyflwynir y rhagdybiaethau yma er mwyn i'r Bwrdd gael cyfle i holi swyddogion a herio newidiadau rhwng 2016 a 2019.

**Argymhellion**

7. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r rhagdybiaethau yn y tabl crynodeb dilynol, ac wedi'u manylu yn yr Atodiad.

Crynodeb rhagdybiaethau arfaethedig ar gyfer prisiad 2019:

| **Rhagdybiaeth** | **Rhagdybiaeth 2016** | **Arfaethedig 2019** | **Rheswm dros y newid** |
|---|---|---|---|
| Raddfa disgownt<br>• Maint uwch na'r raddfa di-risg | 1.7% y.f. | 1.7% y.f. | Dim newid, lefel darbodus yn gyson gyda phrisiad 2016 |
| Codiadau Pensiwn<br>• Bwlch RPI-CPI | CPI yn llai o 1.0% y.f. | CPI yn llai o 1.0% y.f. | Dim newid |
| Codiadau cyflog<br>• Chwyddiannol | RPI llai 1% (=CPI) | CPI + 0.3% y.f. (RPI llai 0.7%) | Disgwylir codiadau cyflog tymor byr uwch |
| Hirhoedledd<br>• Gwaelodlin<br>• Gwelliannau yn y dyfodol | Dadansoddiad 'Club Vita'<br>Model CMI, fersiwn 2013, raddfa gwelliannau hirdymor o 1.25% y.f. | Dadansoddiad 'Club Vita'<br>Model CMI (fersiwn diweddarach), raddfa gwelliannau hirdymor o 1.25% y.f. | Dim newid ym methodoleg. Fersiwn diweddarach o dabl CMI yn adlewyrchu profiad mwy diweddar. |
| Alldyniadau | Gweithredu graddfa o 85% i ragdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson ar gyfer gwrywod rhan amser a 90% i holl fenywod yn ôl-weithredol, a gweithredu'r rhagdybiaeth rhagosodedig ar gyfer gwrywod llawn amser | | |
| Ymddeoliadau oherwydd salwch | Haen 1; Gweithredu graddfa o 70% i ragdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson ar gyfer menywod llawn amser, fel arall gweithredu'r rhagdybiaeth rhagosodedig<br><br>Haen 2; Gweithredu rhagdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson | | |
| Codiadau cyflog hyrwyddol | Dim newid (gweithredu rhagdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson) | | |
| Opsiwn '50:50 take-up' | 2% | 0.5% | Adlewyrchu'r gyfradd hawlio isel parhaus |
| Arian parod y gellir ei gymudo | Dim newid arfaethedig o ragdybiaeth prisiad 2016 | | |
| Marwolaethau cyn ymddeol | Dim newid arfaethedig o ragdybiaeth prisiad 2016 | | |
| Cyfran wedi priodi | Dim newid arfaethedig o ragdybiaeth prisiad 2016 | | |
| Oed ymddeol | Addasiad bychan i adlewyrchu profiad sy'n dod i'r amlwg | | |

8. Mae manylion llawn am y rhagdybiaethau wedi'u gosod allan yn adroddiad yr Actiwari, wedi'i amgáu yma fel Atodiad.